PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# GWRANDO AR BLANT BACH

## SUT GALLWN NI WRANDO?

*Mae gan bob plentyn hawl i'w lleisiau gael eu clywed a'u gwrando – Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

**Mae plant yn arbenigwyr ar eu byd eu hunain ac maen nhw'n gweld pethau mewn ffordd wahanol i oedolion. (James a Prout 1990) (i)**

Wrth weithio gyda phlant ifanc, mae gofyn defnyddio dulliau creadigol o glywed eu lleisiau a gwrando arnynt:

**Mae angen i'r rhai sy'n rhoi gofal:**

1. fod yn arsylwyr medrus,
2. meddu ar wybodaeth dda am ddatblygiad plant,
3. darparu amgylchedd a rhyngweithio o ansawdd uchel
4. gallu myfyrio ar gynnwys a chyd-destun a'u hadolygu

Wrth i fyd y plant dyfu, gall y rhai sy'n rhoi gofal iddynt eu helpu i ffurfio barn a'i mynegi mewn modd anffurfiol; gan roi cymorth pellach iddynt gael "llais".

Deall sut mae plant yn gweld y mannau o'u cwmpas

Cynnwys y plant wrth ddylunio a darparu gwasanaethau
Defnyddio elfennau o'r:

**Dull Mosaig**
Gweld plant fel 'arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain', cynnig fframwaith creadigol ar gyfer gwrando ar safbwyntiau plant ifanc trwy sgwrsio, cerdded, gwneud ac adolygu ar y cyd. Clark a Moss (2011)(ii)

**Mapio-gwneud-Adolygu**
Yn seiliedig ar y dull Mosaig a Chynllunio-gwneud-Adolygu a ddatblygwyd gan High/Scope (Schweinhart et al 2002) (iii)

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK**

## Trwy lygaid y plentyn

Cyflwynwyd y plant i'r 'tedis' a oedd yn ymweld â'u meithrinfa; a gofynnwyd iddyn nhw ddangos y feithrinfa i'r tedis, gan feddwl am y mannau canlynol:

- Hapus
- Tawel
- Swnllyd
- Arbennig
- Hwyl

Bu'r plant yn cynnwys y tedis wrth chwarae a bu'r ymarferwyr yn eu gwylio'n rhyngweithio.

Lluniwyd 'Map' o fannau'r feithrinfa a chafodd y plant ddewis gosod lluniau o'r tedis (oedd yn cynrychioli pob un o'r meysydd uchod) ar y map.

Roedd canlyniadau'r map a'r arsylwadau: yn caniatáu i'r ymarferwyr ddeall sut mae'r plant yn gweld y mannau hyn a defnyddio hynny yn y dyfodol wrth gynllunio, dylunio ac adolygu.

**Fideo Adnoddau Tedi**

**https://youtu.be/3tsR9Y-xfWQ**

***Sylwch: Y rhai sy'n rhoi gofal sy'n adnabod y plentyn orau; canllaw yw hyn – a dylid ei addasu a'i ddefnyddio i gefnogi pob plentyn unigol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.childreninwales.org.uk/cy***

i James, A., & Prout, A. (1990). Constructing and reconstructing childhood: New directions in the sociological study of childhood (2nd Ed (1997) Published by Routledge ed.). Oxford: Routledge ii Clark, Alison and Moss, Peter (2011). Listening To Young Children: The Mosaic Approach (2nd ed.). London: National Children's Bureau. iii Schweinhart et al (2002) The High/Scope Preschool Curriiculum: What is it? Why use it? Journal of At-Risk Issues, v8 n1